**Cofnodion cyfarfod Fforwm Cyllid Ysgolion Ceredigion a gynhaliwyd yn rhithiol ar Teams ar ddydd Mawrth, 23 Mehefin 2026**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Wyn Thomas, Aelod Cabinet ar gyfer Ysgolion, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (Cadeirydd); Enid Brophy, Pennaeth: Ysgol Gynradd Gatholig Padarn Sant; Carol Davies, Pennaeth: Ysgol Dyffryn Cledlyn; Carys Morgan, Pennaeth: Ysgol Bro Pedr a Dorian Pugh, Pennaeth: Ysgol Henry Richard.

**SWYDDOGION YN BRESENNOL:** Elen James, Prif Swyddog Addysg a Swyddog Arweiniol Corfforaethol Gweithredol: Ysgolion, Dysgu Gydol Oes a Diwylliant; Carys Fowles, Rheolwr Cyllid: Ysgolion a Gofal Cwsmer a Neris Morgans, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

(4.17pm – 4.49pm)

1. **Ymddiheuriadau**
   i. Ymddiheurodd Peter Leggett, Pennaeth: Ysgol Gynradd Rhydypennau a Catryn Lawrence, Pennaeth: Ysgol Penrhyn-coch ac Ysgol Penllwyn am nad oeddent yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod.
   ii. Ymddiheurodd Duncan Hall, Swyddog Arweiniol Corfforaethol Gweithredol: Cyllid a Chaffael a Swyddog Adran 151 am nad oedd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod.

2. **Datgelu buddiant personol**
   Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiant personol.

3. **Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod a gyfarfu ar 20 Tachwedd 2025**
   **CYTUNWYD** cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Tachwedd 2025 yn gywir.

4. **Materion yn codi o'r Cofnodion**
   Dim.

5. **Diweddariad ar sefyllfa ariannol y Cyngor – Alldro 25/26**
   Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid ddiweddariad ar sefyllfa ariannol y Cyngor. O safbwynt Refeniw, nododd yr adroddiad ar gyfer chwarter 3 25/26 danwariant o £107k; fodd bynnag, y sefyllfa alldro refeniw gyffredinol derfynol ar gyfer 2025/26 oedd tanwariant gwell o £278k, o'i gymharu â Chyllideb 2025/26 o £209.2m. Roedd hwn yn gyfwerth ag amrywiad o 0.13% a byddai'r tanwariant yn cael ei symud i'r Balansau Cyffredinol. Nodwyd bod y Swyddog Adran 141 o'r farn bod risg isel y byddai angen cyhoeddi hysbysiad Adran 114 yn y tymor byr i'r tymor canolig, yn wahanol i rai awdurdodau lleol, ar yr amod bod y Cyngor bob amser yn parhau i basio cyllideb gytbwys, fel yr oedd ofynnol yn gyfreithiol, erbyn yr 11eg o Fawrth bob blwyddyn.

   Croesawodd y Cadeirydd yr adroddiad a diolchodd i'r Gwasanaeth Cyllid a Chaffael am sicrhau bod yr awdurdod lleol mewn sefyllfa ariannol gryfach, o'i gymharu ag eraill.

   **CYTUNWYD** i nodi'r wybodaeth.

6. **Diweddariad ar sefyllfa Balansau Ysgolion ar 31/03/26 - Ceredigion a Data Cenedlaethol Dros Dro**

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid wybodaeth am falansau ysgolion. Roedd y data yn dangos sefyllfa iach ar gyfartaledd ar gyfer balansau ysgolion Ceredigion; fodd bynnag, roedd cronfeydd wrth gefn cyffredinol wedi gostwng o £3.8m ym mis Ebrill 2025 i £3.1m erbyn mis Mawrth 2026. Ym mis Mawrth 2026, roedd Ysgol Gynradd Talgarreg wedi llwyddo i adennill sefyllfa gadarnhaol, tra bod dwy o ysgolion Ceredigion yn parhau i fod mewn diffyg, sef cyfanswm o £36k. Parhaodd swyddogion i weithio'n agos gyda'r ddwy ysgol ynghyd ag ysgolion eraill sy'n cael anawsterau wrth bennu cyllidebau mantoledig. Awgrymodd Data Cenedlaethol Dros Dro fod cronfeydd wrth gefn ysgolion ledled Cymru wedi gostwng £50m, a bod gan dros 50% o awdurdodau lleol ddiffyg ym malansau cyffredinol ysgolion. Roedd cydweithio rhwng Swyddogion ac ysgolion, ynghyd â her briodol lle bo angen, yn allweddol i sicrhau nad oedd yr awdurdod lleol yn cyrraedd sefyllfa debyg.

Esboniodd y Prif Swyddog Addysg, unwaith y byddai ysgol yn mynd i sefyllfa diffyg, fod y diffyg yn aml yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn. Mynegodd siom nad oedd Estyn wedi cyfeirio at reoli cyllidebau ysgolion yn eu hadroddiadau ac awgrymodd y dylid ystyried hyn. Cytunodd y Cadeirydd â'r Prif Swyddog Addysg.

Mynegodd Enid Brophy, Pennaeth: Ysgol Gynradd Gatholig Padarn Sant bryderon ynghylch niferoedd derbyn isel/niferoedd mawr o ddisgyblion blwyddyn 6 yn gadael a lleihad mewn cronfeydd wrth gefn yr ysgol, ac fel yr oedd pethau, yr unig opsiwn oedd lleihau nifer yr athrawon. Eglurodd ei bod yn her i fodloni rhwymedigaethau amrywiol fel iechyd a diogelwch. Llongyfarchodd yr awdurdod lleol; fodd bynnag, roedd y gostyngiad yn nifer y disgyblion yn parhau i fod yn bryder ac roedd disgwyl iddo effeithio ar ysgolion y flwyddyn nesaf.

Adleisiodd Dorian Pugh, Pennaeth: Ysgol Henry Richard bryderon Enid Brophy a nododd fod y gefnogaeth a'r arweinyddiaeth gan y Gwasanaeth Cyllid a Chaffael yn rhagorol. Mynegodd bryderon mewn perthynas â grantiau ac ychwanegodd fod gofyn cynyddol i staff ddod o hyd i ffyrdd creadigol o gynnal ysgolion. Roedd yn amlwg bod cronfeydd wrth gefn llawer o ysgolion yn lleihau, a'r heriau ychwanegol y gallai rhai ysgolion eu hwynebu'n fuan oherwydd gostyngiad parhaus yn nifer y disgyblion. Dywedodd fod terfyn ar faint y gallai ysgolion a'r awdurdod lleol ei wneud oherwydd cyllid cyfyngedig. Roedd heriau ac, o safbwynt arweinyddiaeth, roedd yn ofynnol i staff gyflenwi rhagor o wersi oherwydd absenoldeb staff fel straen yn gysylltiedig â gwaith, ac oherwydd bod costau athrawon cyflenwi wedi cynyddu'n sylweddol.

Gwnaeth y Cadeirydd gydnabod yr heriau a godwyd gan y Penaethiaid a oedd yn bresennol, gan ychwanegu bod y pryderon yn thema gyffredin gyda Phenaethiaid ledled Ceredigion ac yn genedlaethol. Nododd fod y berthynas agos ac adeiladol rhwng Gwasanaeth yr Ysgolion ac Ysgolion yn amlwg, a bod y ddwy ochr yn barod i rannu pryderon a gweithredu lle bo'n bosibl.

Cadarnhaodd y Prif Swyddog Addysg fod y Cadeirydd, yn ei rôl fel Aelod y Cabinet dros Ysgolion, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ynghyd â'r Rheolwr Cyllid, y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Gweithredol: Cyllid a Chaffael a hi ei hun, wedi codi

pryderon gyda Llywodraeth Cymru am yr heriau a'r cyllid annigonol i ysgolion ar unrhyw gyfle, er nad oedd dim cyllid ychwanegol wedi'i gael hyd yma. Roedd cyllid ychwanegol wedi'i ddyrannu i Ysgolion gan Gabinet/Cyngor Llawn Ceredigion; fodd bynnag, parhaodd yr heriau. Yn ogystal, roedd yn siomedig iawn bod cyllid canlyniadol Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) wedi'i ddyrannu i ariannu blaenoriaethau ehangach gan Lywodraeth Cymru, yn hytrach nag yn uniongyrchol i gefnogi ADY.

Adleisiodd y Cadeirydd siom y Prif Swyddog Addysg ac ychwanegodd fod y setliad cyllido gan Lywodraeth Cymru yn annigonol.

**CYTUNWYD** i nodi'r wybodaeth.

7. **Gwrthdaro yn y Dwyrain Canol – Ystyriaethau Cyllidol**
Esboniodd y Rheolwr Cyllid fod diweddariad rheolaidd ar faterion allweddol, gan gynnwys effeithiau ariannol posibl sy'n deillio o wrthdaro'r Dwyrain Canol, yn cael ei roi i'r Grŵp Arweiniol, Arweinydd y Cyngor, Aelodau'r Cabinet ac Arweinwyr Grwpiau bob wythnos. Un canlyniad oedd cyhoeddiad CThEF y byddai cyfradd y filltir yn cynyddu i 55 ceiniog y filltir. Ers hynny, mae'r gyfradd ddiwygiedig ar gyfer milltiroedd busnes gweithwyr ac Aelodau wedi'i chymeradwyo gan y Cyngor Llawn a byddai'n cael ei hôl-ddyddio i 1 Ebrill 2026. Ni fyddai dim effaith sylweddol yn y tymor byr ar gostau trydan gan fod y Cyngor yn gallu ei brynu ymlaen llaw. Roedd cyllid wedi'i drosglwyddo i'r gronfa wrth gefn Pwysau Costau a Chwyddiant i gynorthwyo gyda lliniaru lle bo angen, fel cludiant ysgol. Roedd y tendr ar gyfer cludiant ysgol i fod i agor yn fuan.

**CYTUNWYD** i nodi'r wybodaeth.

8. **Adroddiad Cenedlaethol Estyn - Cymorth awdurdodau lleol i ysgolion i reoli eu cyllidebau**
Llongyfarchodd y Prif Swyddog Addysg y Gwasanaeth Cyllid a Chaffael ar gael ei gydnabod ddwywaith yn yr adroddiad cenedlaethol a gynhyrchwyd gan Estyn ar gymorth awdurdodau lleol i ysgolion reoli eu cyllidebau.

Llongyfarchodd y Cadeirydd hefyd y gwasanaeth a chanmolodd y cydweithrediad rhwng y Prif Swyddog Addysg, y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Gweithredol: Cyllid a Chaffael a'r Grŵp Arweiniol yn ei gyfanrwydd.

Estynnodd y Rheolwr Cyllid ei diolch i'r Penaethiaid a'r Rheolwyr Busnes a gyfwelwyd gan Estyn.

**CYTUNWYD** i nodi'r wybodaeth.

9. **Newidiadau i Reoliadau Cyllido Ysgolion (yn dod i rym Ebrill 2027)**
Rhoddodd y Rheolwr Cyllid ddiweddariad i Fforwm ar effaith y Rheoliadau Cyllido Ysgolion, Datganiadau Cyllideb a Datganiadau Alldro (Cymru) 2026 newydd. Eglurodd y byddai'r adroddiad yn cael ei ystyried gan Grŵp Arweiniol y Cyngor yfory. Fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad, byddai'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol wneud newidiadau i'r Fformiwla Gyllido Ysgolion

Dirprwyedig, y Cynllun Ariannu Ysgolion a'r Datganiadau Cyllideb ac Alldro (Adran 52).

Roedd nifer o ddyddiadau cau allweddol i'w cwrdd i sicrhau bod ymgynghoriad ffurfiol yn cael ei gynnal gyda Phenaethiaid a Llywodraethwyr ar yr agweddau perthnasol, yn ogystal â dilyn y llwybrau llywodraethu arferol drwy'r Fforwm, y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu a chymeradwyaeth derfynol gan y Cabinet – i gyd i'w gwblhau ac yn eu lle erbyn mis Chwefror 2027. Fel yr amlinellir yn yr amserlen bresennol, y nod oedd cyflwyno cynigion drafft (cyn-ymgynghoriad) i'r Fforwm i'w trafod ar 15 Hydref 2026 a dychwelyd ddechrau mis Rhagfyr yn dilyn yr ymgynghoriad ffurfiol i ystyried yr atebion.

Mewn ymateb i gwestiwn y Cadeirydd ynghylch a oedd llawer o ysgolion yn ddi-arian parod, cadarnhaodd y Rheolwr Cyllid fod hyn yn wir, ac felly byddai defnyddio Cardiau Credyd Corfforaethol yn galluogi ysgolion i dalu am unrhyw bryniannau ar unwaith, yn hytrach na chael eu hanfonebu a dilyn y prosesau caffael presennol.

Esboniodd y Prif Swyddog Addysg fod Swyddogion yn bwriadu cwrdd â Rheolwyr Busnes yr Ysgolion Uwchradd a Gydol Oes o ganol mis Medi ymlaen i drafod y newidiadau.

**CYTUNWYD** i nodi effaith Rheoliadau Cyllido Ysgolion, Datganiadau Cyllideb a Datganiadau Alldro (Cymru) 2026 newydd gan gynnwys y rhaglen waith gysylltiedig sy'n ofynnol a'r amserlen dan sylw.

**10. Unrhyw fater arall**
Dim.

**11. Dyddiad y cyfarfod nesaf**
15 Hydref 2026 am 4.30yp ar Teams.

Diolchodd y Cadeirydd i holl staff yr ysgolion a'r Swyddogion am eu gwaith.